

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

Section 2	Adran 2
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 3 - 63	Adrannau 3 - 63
Section 1	Adran 1
Section 66	Adran 66
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 67 - 173	Adrannau 67 - 173
Sections 64 - 65	Adrannau 64 - 65
Sections 174 - 183	Adrannau 174 - 183
Schedule 3	Atodlen 3
Sections 184 - 188	Adrannau 184 - 188
Long title	Teitl hir

Lindsay Whittle

126

Section 2, page 2, after line 26, insert –

'() an advocacy service,'.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

'() gwasanaeth eirioli,'.



Lindsay Whittle

127

Section 2, page 2, after line 26, insert –

‘() a preventative and enablement service,’.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

‘() gwasanaeth ataliol a galluogi,’.

Lindsay Whittle

128

Section 2, page 2, after line 27, insert –

‘() an extra care service, and’.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

‘() gwasanaeth gofal ychwanegol, a’.

Lindsay Whittle

156

Schedule 1, page 113, after line 26, insert –

‘Advocacy services

() An “advocacy service” means a service which provides assistance (by way of representation or otherwise) to persons for purposes relating to their care and support.’.

Atodlen 1, tudalen 113, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘Gwasanaethau eirioli

() Ystyr “gwasanaeth eirioli” yw gwasanaeth sy’n darparu cynhorthwy (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bersonau at ddibenion sy’n ymwneud â’u gofal a chymorth.’.

Lindsay Whittle

157

Schedule 1, page 113, after line 26, insert –

‘Preventative and enablement services

() (1) A “preventative and enablement service” means a service which achieves (or is designed to achieve) one or more of the purposes in subparagraph (2).

(2) The purposes are –

- (a) contributing towards preventing or delaying the development of people’s needs for care and support;
- (b) reducing the needs for care and support of people who have such needs;
- (c) promoting the upbringing of children by their families, where that is consistent with the well-being of children;
- (d) minimising the effect on disabled people of their disabilities;



- (e) contributing towards preventing people from suffering abuse or neglect;
- (f) reducing the need for –
 - (i) proceedings for care or supervision orders under the Children Act 1989,
 - (ii) criminal proceedings against children,
 - (iii) any family or other proceedings in relation to children which might lead to them being placed in local authority care, or
 - (iv) proceedings under the inherent jurisdiction of the High Court in relation to children;
- (g) encouraging children not to commit criminal offences;
- (h) avoiding the need for children to be placed in secure accommodation;
- (i) enabling people to live their lives as independently as possible.’.

Atodlen 1, tudalen 113, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘Gwasanaethau ataliol a galluogi

- () (1) Ystyr “gwasanaeth ataliol a galluogi” yw gwasanaeth sy’n cyflawni (neu sydd wedi’i gynllunio i gyflawni) un neu ragor o’r dibenion yn is-baragraff (2).
- (2) Y dibenion yw –
 - (a) cyfrannu at atal neu oedi datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth;
 - (b) lleihau’r anghenion am ofal a chymorth i bobl y mae arnynt anghenion o’r fath;
 - (c) hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd, pan fo hynny’n gyson â llesiant y plant;
 - (d) cadw i’r lleiaf posibl yr effaith sydd gan eu hanabledau ar bobl anabl;
 - (e) cyfrannu at atal pobl rhag dioddef gan gamdriniaeth neu esgeulustod;
 - (f) lleihau’r angen am –
 - (i) achosion cyfreithiol am orchmynion gofalu neu oruchwylio o dan Ddeddf Plant 1989,
 - (ii) achosion troseddol yn erbyn plant,
 - (iii) unrhyw achosion teuluol neu achosion cyfreithiol eraill mewn perthynas â phlant a allai arwain at eu rhoi yng ngofal awdurdod lleol, neu
 - (iv) achosion cyfreithiol o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys mewn perthynas â phlant;
 - (g) annog plant i beidio â throeddu;
 - (h) osgoi’r angen i blant gael eu lleoli mewn llety diogel;
 - (i) galluogi pobl i fyw eu bywydau mewn ffordd mor annibynnol â phosibl.’.



Lindsay Whittle

158

Schedule 1, page 114, after line 16, insert –

'Extra care services

- () An “extra care service” means a service providing specially designed or adapted housing in which varying amounts of care and support can be offered and where some services and facilities are shared.’

Atodlen 1, tudalen 114, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

'Gwasanaethau gofal ychwanegol

- () Ystyr “gwasanaeth gofal ychwanegol” yw gwasanaeth sy’n darparu tai sydd wedi’u dylunio neu eu haddasu’n arbennig lle y gellir cynnig amrywiaeth o ofal a chymorth a lle y rhennir rhai gwasanaethau a chyfleusterau.’

Lindsay Whittle

129

Section 3, page 3, line 3, leave out –

‘care relating to –

- (i) the day to day physical tasks and needs of the person cared for, and
(ii) the mental processes related to those tasks and needs’

And insert –

‘the provision of what is necessary to –

- () meet the day to day physical tasks of a person being cared for,
() meet the day to day physical, emotional, spiritual and cultural needs of a person being cared for,
() promote and maintain the well-being of a person being cared for, and
() ensure that the life of a person cared for has value, meaning and a purpose’.

Adran 3, tudalen 3, llinell 3, hepgorer –

‘gofal sy’n ymwneud â –

- (i) tasgau ac anghenion corfforol beunyddiol y person y gofelir amdano, a
(ii) y prosesau meddyliol sy’n ymwneud â’r tasgau a’r anghenion hynny’

A mewnosoder –

‘darparu yr hyn sy’n angenrheidiol er mwyn –

- () cyflawni tasgau corfforol beunyddiol person y gofelir amdano,
() cyflawni anghenion corfforol, emosiynol, ysbrydol a diwylliannol beunyddiol person y gofelir amdano,
() hyrwyddo a chynnal llesiant person y gofelir amdano, a



() sicrhau bod gwerth, ystyr a diben i fywyd person y gofelir amdano.

Mark Drakeford

1

Section 3, page 3, line 4, after 'for', insert '(for example, eating and washing)'.

Adran 3, tudalen 3, llinell 4, ar ôl 'amdano', mewnosoder '(er enghraifft, bwyta ac ymolchi)'.

Mark Drakeford

2

Section 3, page 3, line 5, after 'needs', insert '(for example, the mental process of remembering to eat and wash)'.

Adran 3, tudalen 3, llinell 5, ar ôl 'hynny', mewnosoder '(er enghraifft, y broses feddyliol o gofio bwyta ac ymolchi)'.

Altaf Hussain

109

Section 3, page 3, after line 5, insert –

'(iii) the emotional needs of the person cared for;'.

Adran 3, tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

'(iii) anghenion emosiynol y person y gofelir amdano;'.

Mark Drakeford

3

Section 3, page 3, line 8, leave out ', 149A to 149D, 161, 161A and' and insert 'and 149A to'.

Adran 3, tudalen 3, llinell 9, hepgorer ', 149A i 149D, 161, 161A a' a mewnosoder 'a 149A i'.

Lindsay Whittle

130

Section 6, page 4, after line 15, insert –

'() identifying any person who will have authority to give instructions about the management of the place at, from or in relation to which the service is to be provided, and'.

Adran 6, tudalen 4, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

'() sy'n adnabod unrhyw berson y bydd ganddo awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli'r man y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ynddo neu ohono neu mewn perthynas ag ef, ac'.

Lindsay Whittle

131

Section 6, page 4, after line 16, insert –

'() An application must be accompanied by a declaration by the applicant that any person who will have authority to give instructions about the management of the place at, from or in relation to which the service is to be provided, is a fit and proper person.'



Adran 6, tudalen 4, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- () Rhaid i gais gynnwys gydag ef ddatganiad gan yr ymgeisydd fod unrhyw berson y bydd ganddo awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli'r man y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ynddo neu ohono neu mewn perthynas ag ef, yn berson addas a phriodol.'

***Lindsay Whittle**

132

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Kirsty Williams, Altaf Hussain

Section 7, page 4, after line 23, insert –

- () in the case of an application relating to a domiciliary care service, contains the undertaking set out in subsection ((*subsection to be inserted by amendment 133*));'

Adran 7, tudalen 4, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

- () yn achos cais sy'n ymwneud â gwasanaeth gofal cartref, yn cynnwys yr ymgymeriad a nodir yn is-adran ((*yr is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 133*));'

Mark Drakeford

4

Section 7, page 4, after line 24, insert –

- () the applicant is a fit and proper person to be a service provider (see section (*section to be inserted by amendment 7*));'

Adran 7, tudalen 4, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

- () bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth (gweler adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 7*));'

Mark Drakeford

5

Section 7, page 4, line 27, leave out 'satisfies any requirements prescribed under section 19(4) (requirements as to fitness to be a responsible individual' and insert 'is a fit and proper person to be a responsible individual (see section (*section to be inserted by amendment 7*))'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 29, hepgorer 'bodloni unrhyw ofynion a ragnodir o dan adran 19(4) (gofynion o ran addasrwydd i fod yn unigolyn cyfrifol' a mewnosoder 'berson addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol (gweler adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 7*))'.



***Lindsay Whittle**

133

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Kirsty Williams, Altaf Hussain

Section 7, page 5, after line 6, insert—

- '() The undertaking is that a domiciliary care service must not be provided by way of a visit the duration of which is shorter than half an hour unless—
- (a) the person carrying out the visit on behalf of the service provider is known to the person receiving the service, and
 - (b) the visit is part of a wider package of support, and it allows enough time to complete specific, time limited tasks or to check if someone is safe and well.'

Adran 7, tudalen 5, ar ôl llinell 7, mewnosoder—

- '() Yr ymgymeriad yw na chaniateir darparu gwasanaeth gofal cartref drwy ymweliad sy'n fyrrach na hanner awr oni bai bod—
- (a) y person sy'n cynnal yr ymweliad ar ran y darparwr gwasanaeth yn hysbys i'r person sy'n derbyn y gwasanaeth, a
 - (b) yr ymweliad yn rhan o becyn ehangach o gymorth, a'i fod yn caniatáu digon o amser i gwblhau tasgau penodol sy'n gyfyngedig i amser neu i gadarnhau os yw rhywun yn ddiogel ac yn iach.'

Lindsay Whittle

134

Section 7, page 5, after line 12, insert—

- '(iii) that the service provider must have policies and procedures in place requiring the delivery of the service to have regard to the preferred language of the person to whom the regulated service is being provided, and'.

Adran 7, tudalen 5, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

- '(iii) bod yn rhaid i'r darparwr gwasanaethau fod â pholisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth honno roi sylw i ddewis iaith y person y darperir y gwasanaeth rheoleiddiedig iddo, a'.

Lindsay Whittle

135

Section 7, page 5, after line 12, insert—

- '(iii) that the service provider must have policies in place setting out its arrangements for the current and future delivery of the service (including but not limited to, for example, recruitment, retention and training), and'.

Adran 7, tudalen 5, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

- '(iii) bod yn rhaid i'r darparwr gwasanaeth fod â pholisiau ar waith yn nodi ei drefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol (gan gynnwys er enghraifft recriwtio, cadw a hyfforddi, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt), a'.



Mark Drakeford

6

Section 7, page 5, line 18, leave out subsection (5).

Adran 7, tudalen 5, llinell 20, hepgorer is-adran (5).

Altaf Hussain

7A

As an amendment to amendment 7, after line 8, insert –

- ‘() If the Welsh Ministers think that a person has been responsible for, contributed to or facilitated any misconduct or mismanagement in a regulated service, the Welsh Ministers must consider the circumstances of the misconduct or mismanagement in deciding whether a person is fit and proper.
- () The circumstances in (*first subsection to be inserted by amendment 7A*) include –
- (a) the seriousness and duration of the misconduct or mismanagement;
 - (b) any harm caused to any person, including any evidence of intention to cause harm;
 - (c) any financial gain made by the person;
 - (d) any remedial action the person took following the misconduct or mismanagement.’.

Fel gwelliant i welliant 7, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

- ‘() Os yw Gweinidogion Cymru yn credu bod person wedi bod yn gyfrifol am unrhyw gamymddwyn neu gamreoli mewn gwasanaeth rheoleiddiedig, neu wedi cyfrannu at hyn neu wedi hwyluso hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried amgylchiadau'r camymddwyn neu'r camreoli wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol.
- () Mae'r amgylchiadau yn (*yr is-adran gyntaf sy'n cael ei mewnosod gan welliant 7A*) yn cynnwys –
- (a) difrifoldeb a hyd y camymddwyn neu'r camreoli;
 - (b) unrhyw niwed a achosir i unrhyw berson, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth o fwriad i achosi niwed;
 - (c) unrhyw elw ariannol a wnaeth y person;
 - (d) unrhyw gamau unioni a gymerodd y person yn dilyn y camymddwyn neu'r camreoli.’.

Mark Drakeford

7

Page 5, after line 28, insert a new section –

‘() **Fit and proper person: relevant considerations**

- (1) This section applies to any decision of the Welsh Ministers as to whether –
- (a) a service provider,
 - (b) a person applying to be a service provider,



- (c) a responsible individual, or
 - (d) a person to be designated as a responsible individual,
- is a fit and proper person to be a service provider or, as the case may be, a responsible individual.
- (2) In making such a decision the Welsh Ministers must have regard to all matters they think appropriate.
 - (3) In particular, the Welsh Ministers must have regard to any evidence falling within subsections (4) to (6).
 - (4) Evidence falls within this subsection if it shows that the person has—
 - (a) committed—
 - (i) any offence involving fraud or other dishonesty, violence, firearms or drugs or any offence listed in Schedule 3 to the Sexual Offences Act 2003 (c.42) (offences attracting notification requirements),
 - (ii) an offence under this Act or regulations made under it,
 - (iii) an offence under Part 2 of the Care Standards Act 2000 (c.14) or regulations made under it, or
 - (iv) any other offence which the Welsh Ministers think is relevant, or
 - (b) practised unlawful discrimination or harassment on the grounds of any characteristic which is a protected characteristic under section 4 of the Equality Act 2010 (c.15), or victimised another person contrary to that Act, in or in connection with the carrying on of any business.
 - (5) Evidence is within this subsection if—
 - (a) it shows that any other person associated or formerly associated with the person (whether on a personal, work or other basis) has done any of the things set out in subsection (4), and
 - (b) it appears to the Welsh Ministers that the evidence is relevant to the question as to whether the person is a fit and proper person to be a service provider or, as the case may be, a responsible individual.
 - (6) Evidence is within this subsection if it shows that the person has previously failed to comply with—
 - (a) a condition imposed under this Part, or
 - (b) a requirement imposed by regulations under section 26(1) or 27(1).
 - (7) The Welsh Ministers may, by regulations, amend this section to vary the evidence to which they must have regard.’.

Tudalen 5, ar ôl llinell 30, mewnosoder adran newydd—

‘() **Person addas a phriodol: ystyriaethau perthnasol**

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys i unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru o ran a yw—
 - (a) darparwr gwasanaeth,



- (b) person sy'n gwneud cais i fod yn ddarparwr gwasanaeth,
 - (c) unigolyn cyfrifol, neu
 - (d) person sydd i'w ddynodi'n unigolyn cyfrifol,
- yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth neu, yn ôl y digwydd, unigolyn cyfrifol.
- (2) Wrth wneud penderfyniad o'r fath rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r holl faterion sy'n briodol yn eu barn hwy.
 - (3) Yn benodol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw dystiolaeth sy'n dod o fewn is-adrannau (4) i (6).
 - (4) Mae tystiolaeth yn dod o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person wedi—
 - (a) cyflawni—
 - (i) unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau tanio neu gyffuriau neu unrhyw drosedd sydd wedi ei rhestru yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42) (troseddau sydd â gofynion hysbysu),
 - (ii) trosedd o dan y Ddeddf hon neu reoliadau a wneir odani,
 - (iii) trosedd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14) neu reoliadau a wneir odani, neu
 - (iv) unrhyw drosedd arall sy'n berthnasol ym marn Gweinidogion Cymru, neu
 - (b) aflonyddu ar rywun, neu wahaniaethu'n anghyfreithlon, ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd warchoddedig o dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15), neu wedi erlid person arall yn groes i'r Ddeddf honno, wrth gynnal unrhyw fusnes neu mewn cysylltiad â hynny.
 - (5) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon—
 - (a) os yw'n dangos bod unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r person neu a oedd yn gysylltiedig â'r person gynt (pa un ai ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall) wedi gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a nodir yn is-adran (4), a
 - (b) os ymddengys i Weinidogion Cymru fod y dystiolaeth yn berthnasol wrth ystyried a yw'r person yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth neu, yn ôl y digwydd, yn unigolyn cyfrifol.
 - (6) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person wedi methu'n flaenorol â chydymffurfio—
 - (a) ag amod a osodir o dan y Rhan hon, neu
 - (b) â gofyniad a osodir gan reoliadau o dan adran 26(1) neu 27(1).
 - (7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r adran hon i amrywio'r dystiolaeth y mae rhaid iddynt roi sylw iddi.'



Lindsay Whittle

136

Page 5, after line 28, insert a new section –

(1) Fit and proper management

- (1) The Welsh Ministers must be satisfied that any person who has authority to give instructions about the management of a place at, from or in relation to which a regulated service is provided, is a fit and proper person.
- (2) In deciding whether a person is a fit and proper person, the Welsh Ministers must have regard to all matters which they consider appropriate.
- (3) Among the matters to which the Welsh Ministers must have regard is evidence within subsection (4) or (5).
- (4) Evidence is within this subsection if it shows that the person has –
 - (a) contravened any provision of the law relating to social care,
 - (b) committed any offence involving fraud or other dishonesty, violence, firearms, drugs or any offence listed in Schedule 3 to the Sexual Offences Act 2003, or
 - (c) practised unlawful discrimination, harassment or victimisation within the meaning of the Equality act 2010.
- (5) Evidence is within this subsection if –
 - (a) it shows that any other person associated or formerly associated with the person (whether on a personal, work or other basis) has done any of the things set out in subsection (4), and
 - (b) it appears to the Welsh Ministers that the evidence is relevant to the question whether the person is a fit and proper person to give instructions about the management of the place.’.

Tudalen 5, ar ôl llinell 30, mewnosoder adran newydd –

(1) Rheolaeth addas a phriodol

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod unrhyw berson y mae ganddo awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli’r man y caiff y gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu ynddo neu ohono neu mewn perthynas ag ef, yn berson addas a phriodol.
- (2) Wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i’r holl faterion sy’n briodol yn eu barn hwy.
- (3) Mae tystiolaeth o fewn is-adran (4) neu (5) ymhlith y materion y mae’n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt.
- (4) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon os yw’n dangos bod person wedi –
 - (a) torri unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy’n ymwneud â gofal cymdeithasol,
 - (b) cyflawni unrhyw drosedd sy’n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau tanio neu gyffuriau neu unrhyw drosedd sydd wedi ei restru yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, neu



- (c) aflonyddu ar rywun, gwahaniaethu'n anghyfreithlon, neu erlid person o fewn ystyr Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- (5) Mae tystiolaeth yn dod o fewn yr is-adran hon –
 - (a) os yw unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r person neu a oedd yn gysylltiedig â'r person gynt (pa un ai ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall) wedi gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a nodir yn is-adran (4), a
 - (b) os ymddengys i Weinidogion Cymru fod y dystiolaeth yn berthnasol wrth ystyried a yw'r person yn berson addas a phriodol i roi cyfarwyddiadau am reoli'r man.'.

Lindsay Whittle

8A

As an amendment to amendment 8, after line 15, insert –

'() information about workforce planning;'

Fel gwelliant i welliant 8, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

'() gwybodaeth am gynllunio'r gweithlu;'

Lindsay Whittle

8B

As an amendment to amendment 8, after line 20, insert –

'() In this section, "information about workforce planning" means information about the arrangements the service provider has in place about, including, but not limited to, for example, recruitment, retention and training.'

Fel gwelliant i welliant 8, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

'() Yn yr adran hon, ystyr "gwybodaeth am gynllunio'r gweithlu" yw gwybodaeth am y trefniadau sydd ar waith gan y darparwr gwasanaeth ynghylch materion sy'n cynnwys er enghraifft recriwtio, cadw a hyfforddi, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.'

Mark Drakeford

8

Section 8, page 5, line 32, leave out 'such information and be in such form as may be prescribed' and insert –

' –

- (a) the following information –
 - (i) the regulated services that the service provider is registered to provide;
 - (ii) the places at, from or in relation to which the provider is registered to provide those services;
 - (iii) the name of the responsible individual registered in respect of each such place;
 - (iv) the date on which the provider's registration took effect in respect of each such regulated service and place;



- (v) details of any other conditions imposed on the service provider's registration;
 - (vi) details of the number of persons to whom the provider provided care and support during the year in the course of providing each such service;
 - (vii) such other information as may be prescribed, and
- (b) a statement setting out how the service provider has complied with any regulations made under section 26(1) specifying the standard of care and support that must be provided by a service provider (see section 26(3)).

(3) An annual return must be in the prescribed form'.

Adran 8, tudalen 5, llinell 34, hepgorer 'unrhyw wybodaeth a ragnodir a bod ar unrhyw ffurf a ragnodir' a mewnosoder –

' –

- (a) yr wybodaeth a ganlyn –
- (i) y gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i'w darparu;
 - (ii) y manau y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaethau hynny ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy;
 - (iii) enw'r unigolyn cyfrifol sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â phob man o'r fath;
 - (iv) y dyddiad y cymerodd cofrestriad y darparwr effaith mewn cysylltiad â phob gwasanaeth rheoleiddiedig a phob man o'r fath;
 - (v) manylion unrhyw amodau eraill a osodir ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth;
 - (vi) manylion am nifer y personau y darparodd y darparwr ofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn wrth ddarparu pob gwasanaeth o'r fath;
 - (vii) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir, a
- (b) datganiad sy'n nodi sut y mae'r darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 26(1) sy'n pennu safon y gofal a'r cymorth y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth ei darparu (gweler adran 26(3)).

(3) Rhaid i ddatganiad blynyddol fod ar y ffurf ragnodedig'.

Lindsay Whittle

137

Section 8, page 5, line 32, leave out 'such information' and insert –

' –

- (i) information about workforce planning, and
- (ii) such other information as may be prescribed,'.



Adran 8, tudalen 5, llinell 34, hepgorer 'unrhyw wybodaeth a ragnodir' a mewnosoder –

' –

- (i) gwybodaeth am gynllunio'r gweithlu, a
- (ii) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir,'.

Lindsay Whittle

138

Section 8, page 5, after line 33, insert –

- '() In this section "information about workforce planning" means information about the arrangements the service provider has in place about, including, but not limited to, for example, recruitment, retention and training.'

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- '() Yn yr adran hon, ystyr "gwybodaeth am gynllunio'r gweithlu" yw gwybodaeth am y trefniadau sydd ar waith gan y darparwr gwasanaeth sy'n cynnwys er enghraifft recriwtio, cadw a hyfforddi, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.'

Mark Drakeford

9

Section 8, page 5, after line 36, insert –

- '(5) Despite section 185(3), a statutory instrument containing the first regulations made under subsection (2)((*first paragraph to be inserted by amendment 8*))(*seventh subparagraph to be inserted by amendment 8*) may not be made unless a draft of the instrument has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.'

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

- '(5) Er gwaethaf adran 185(3), ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (2)((*y paragraff cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 8*))((*y seithfed is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 8*)) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.'

Lindsay Whittle

139

Section 9, page 6, after line 16, insert –

- '(d) there is a change to the persons identified under section 7(1)((*paragraph to be inserted by amendment 130*)).'

Adran 9, tudalen 6, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

- '(d) os oes newid i'r personau a enwir o dan adran 7(1) ((*y paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 130*)).'



Lindsay Whittle

140

Section 9, page 6, after line 20, insert—

‘() The Welsh Ministers must, by regulations, prescribe a time limit within which an application for variation of a provider’s registration must be made in the circumstances referred to in subsection (1)(*paragraph to be inserted by amendment 139*)).’.

Adran 9, tudalen 6, ar ôl llinell 22, mewnosoder —

‘() Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi terfyn amser y mae’n rhaid gwneud cais i amrywio cofrestrriad darparwr yn yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) (*y paragraff sy’n cael ei fewnosod gan welliant 139*)).’.

Mark Drakeford

10

Section 10, page 7, line 1, leave out subsection (3).

Adran 10, tudalen 7, llinell 1, hepgorer is-adran (3).

Mark Drakeford

11

Section 11, page 7, line 15, after ‘if’, insert ‘satisfied that’.

Adran 11, tudalen 7, llinell 17, ar ôl ‘os’, mewnosoder ‘ydynt wedi eu bodloni’.

Mark Drakeford

12

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 11, tudalen 7, llinell 18, ar ôl ‘os’, mewnosoder ‘ydynt wedi eu bodloni’.

Mark Drakeford

13

Section 11, page 7, line 32, leave out subsection (6).

Adran 11, tudalen 7, llinell 33, hepgorer is-adran (6).

Mark Drakeford

14

Section 13, page 8, after line 8, insert—

‘() the Welsh Ministers are no longer satisfied that the service provider is a fit and proper person to be a service provider (see section (*section to be inserted by amendment 7*)));’.

Adran 13, tudalen 8, ar ôl llinell 10, mewnosoder —

‘() nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bellach fod y darparwr gwasanaeth yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth (gweler adran (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 7*)));’.



Mark Drakeford

15

Section 13, page 8, line 15, after 'of', insert ', or has been given a caution in respect of,'.

Adran 13, tudalen 8, llinell 17, ar ôl 'berthnasol', mewnosoder 'neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throedd berthnasol'.

Mark Drakeford

16

Section 13, page 8, line 15, after 'offence', insert 'in connection with a regulated service provided by the service provider'.

Adran 13, tudalen 8, llinell 17, ar ôl 'berthnasol', mewnosoder 'mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth'.

Mark Drakeford

17

Section 13, page 8, line 16, after 'of', insert ', or has been given a caution in respect of,'.

Adran 13, tudalen 8, llinell 18, ar ôl 'berthnasol', mewnosoder ', neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throedd berthnasol,'.

Lindsay Whittle

141

Section 13, page 8, after line 20, insert—

- (f) the Welsh Ministers are not satisfied that any person who has authority to give instructions about the management of the place at, from or in relation to which a regulated service is provided is fit and proper (and the time limit prescribed in regulations made under section 9(*subsection to be inserted by amendment 140*) has expired).'

Adran 13, tudalen 8, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

- (f) nid yw Gweinidogion Cymru yn fodlon bod unrhyw berson y mae ganddo awdurdod i roi cyfarwyddiadau am reoli'r man y caiff y gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu ynddo neu ohono neu mewn perthynas ag ef, yn berson addas a phriodol (ac mae'r terfyn amser a ragnodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 9 (*yr is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 140*)) wedi dod i ben).'

Mark Drakeford

18

Section 13, page 8, line 26, after 'cancelled', insert '(including an offence committed outside England and Wales which, if committed in England and Wales, would constitute a criminal offence)'.

Adran 13, tudalen 8, llinell 28, ar ôl 'ganslo', mewnosoder '(gan gynnwys tramgwydd a gyflawnwyd y tu allan i Gymru a Lloegr a fyddai'n drosedd pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr)'.



Mark Drakeford

19

Section 13, page 8, after line 26, insert—

- ‘() In subsection (1)(c) and (d), “caution” means—
- (a) a conditional caution given under section 22 of the Criminal Justice Act 2003 (c.44) (conditional cautions for adults);
 - (b) any other caution given to a person aged 18 or over in respect of an offence which, at the time the caution is given, that person has admitted;
 - (c) anything corresponding to a caution falling within paragraphs (a) or (b) (however described) which is given to a person in respect of an offence committed outside England and Wales which, if committed in England and Wales, would constitute a criminal offence.’.

Adran 13, tudalen 8, ar ôl llinell 28, mewnosoder—

- ‘() Yn is-adran (1)(c) a (d), mae i “rhybuddiad” yr ystyr a ganlyn—
- (a) rhybuddiad amodol a roddir o dan adran 22 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p.44) (rhybuddiadau amodol ar gyfer oedolion);
 - (b) unrhyw rybuddiad arall a roddir i berson sy’n 18 oed neu drosodd mewn cysylltiad â throsedd a gyfaddefwyd gan y person hwnnw ar yr adeg y rhoddir y rhybuddiad;
 - (c) unrhyw beth sy’n cyfateb i rybuddiad sy’n dod o fewn paragraffau (a) neu (b) (sut bynnag y’i disgrifir) a roddir i berson mewn cysylltiad â thramgwydd a gyflawnwyd y tu allan i Gymru a Lloegr a fyddai’n drosedd pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr.’.

Mark Drakeford

20

Section 14, page 9, line 8, after ‘provided’, insert—

’, and

- () the service provider may make representations’.

Adran 14, tudalen 9, llinell 7, ar ôl ‘wybodaeth’, mewnosoder—

’, a

- () i’r darparwr gwasanaeth gyflwyno sylwadau’.

Mark Drakeford

21

Section 16, page 10, line 22, after ‘(4)’, insert ‘, 21(1)(b) or 23(2)(a)’.

Adran 16, tudalen 10, llinell 22, ar ôl ‘(4)’, mewnosoder ‘, 21(1)(b) neu 23(2)(a)’.



Mark Drakeford

22

Section 17, page 11, after line 7, insert—

- '() Despite subsection (4), a notice of decision given after the 28 day period mentioned in that subsection is valid if the notice—
- (a) gives reasons for the delay in making the decision, and
 - (b) is given no later than 56 days after the expiry of the later of the time limits mentioned in paragraphs (a) and (b) of subsection (4).'

Adran 17, tudalen 11, ar ôl llinell 7, mewnosoder—

- '() Er gwaethaf is-adran (4), mae hysbysiad o benderfyniad a roddir ar ôl y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir yn yr is-adran honno yn ddilys os yw'r hysbysiad—
- (a) yn rhoi'r rhesymau dros yr oedi cyn gwneud y penderfyniad, a
 - (b) yn cael ei roi heb fod yn hwyrach na 56 o ddiwrnodau ar ôl i'r diweddaraf o'r terfynau amser a grybwyllir ym mharagraffau (a) a (b) o is-adran (4) ddod i ben.'

Mark Drakeford

23

Section 17, page 11, after line 19, insert—

- '(7) The Welsh Ministers may by regulations amend—
- (a) the 28 day period mentioned in subsection (4);
 - (b) the 56 day period mentioned in subsection ((*subsection to be inserted by amendment 22*))(b).'

Adran 17, tudalen 11, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

- '(7) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio—
- (a) y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir yn is-adran (4);
 - (b) y cyfnod o 56 o ddiwrnodau a grybwyllir yn is-adran ((*yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 22*))(b).'

Mark Drakeford

24

Section 19, page 11, line 33, leave out 'satisfies any requirements prescribed under subsection (4)' and insert 'the Welsh Ministers are satisfied is a fit and proper person to be a responsible individual (see section (*section to be inserted by amendment 7*))'.

Adran 19, tudalen 11, llinell 33, hepgorer 'sy'n bodloni unrhyw ofynion a ragnodir o dan is-adran (4)' a mewnosoder 'y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei fod yn berson addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol (gweler adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 7*))'.

Mark Drakeford

25

Section 19, page 12, line 14, leave out subsection (4).

Adran 19, tudalen 12, llinell 15, hepgorer is-adran (4).



Mark Drakeford 26

Section 19, page 12, line 21, leave out 'subsections (2) and (4)' and insert 'subsection (2)'.

Adran 19, tudalen 12, llinell 21, hepgorer 'is-adrannau (2) a (4)' a mewnosoder 'is-adran (2)'.

Mark Drakeford 27

Section 20, page 12, line 30, after 'of', insert ', or has been given a caution in respect of,'.

Adran 20, tudalen 12, llinell 31, ar ôl 'berthnasol', mewnosoder 'neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throstedd berthnasol'.

Mark Drakeford 28

Section 20, page 12, line 31, after 'offence', insert 'in connection with a regulated service provided by the service provider'.

Adran 20, tudalen 12, llinell 31, ar ôl 'berthnasol', mewnosoder 'mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth'.

Mark Drakeford 29

Section 20, page 12, line 32, leave out 'meets a requirement prescribed under section 19(4)' and insert 'is a fit and proper person to be a responsible individual (see section (*section to be inserted by amendment 7*))'.

Adran 20, tudalen 12, llinell 32, hepgorer 'bodloni gofyniad a ragnodir o dan adran 19(4)' a mewnosoder 'berson addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol (gweler adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 7*))'.

Mark Drakeford 30

Section 20, page 12, after line 33, insert –

'(d) they have reason to believe that the individual has not complied with a requirement imposed on the individual by regulations under section 27(1).'

Adran 20, tudalen 12, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

'(d) bod rheswm ganddynt dros gredu nad yw'r unigolyn wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir ar yr unigolyn gan reoliadau o dan adran 27(1).'

Mark Drakeford 31

Section 20, page 12, line 34, leave out "'relevant offence" has' and insert "'caution" and "relevant offence" have'.

Adran 20, tudalen 12, llinell 34, ar ôl 'i', mewnosoder "'rhybuddiad" a'.



Mark Drakeford

32

Section 22, page 15, after line 8, insert –

- (5) An interim order of the tribunal may, among other things, suspend the effect of an order made under section 21 for such period as the tribunal may specify.’.

Adran 22, tudalen 15, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

- (5) Caiff gorchymyn interim gan y tribiwnlys, ymhlith pethau eraill, atal dros dro effaith gorchymyn a wneir o dan adran 21 am gyfnod a bennir gan y tribiwnlys.’.

Mark Drakeford

33

Section 23, page 15, line 11, leave out ‘a serious’ and insert ‘, or may be, a’.

Adran 23, tudalen 15, llinell 13, hepgorer ‘difrifol’ a mewnosoder ‘, neu y gall fod perygl,’.

Mark Drakeford

34

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 23, tudalen 15, llinell 16, hepgorer ‘difrifol’ a mewnosoder ‘, neu y gall fod perygl,’.

Mark Drakeford

35

Section 23, page 15, after line 25, insert –

- (e) explain the right of appeal conferred by section 24.’.

Adran 23, tudalen 15, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

- (e) esbonio’r hawl i apelio a roddir gan adran 24.’.

Mark Drakeford

36

Section 23, page 15, line 26, leave out subsections (5) to (6) and insert –

- () The Welsh Ministers may vary or remove a condition varied or imposed under subsection (2) by giving a further decision notice to the service provider, but before doing so they must have regard to any representations made to them by the service provider about the notice given under subsection (2).’.

Adran 23, tudalen 15, llinell 29, hepgorer is-adrannau (5) hyd at (6) a mewnosoder –

- () Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddileu amod a amrywir neu a osodir o dan is-adran (2) drwy roi hysbysiad pellach o benderfyniad i’r darparwr gwasanaeth, ond cyn gwneud hynny rhaid iddynt roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddynt gan y darparwr gwasanaeth ynghylch y hysbysiad a roddwyd o dan is-adran (2).’.



Mark Drakeford

37
